



Cyngor Tref Aberteifi :: Cardigan Town Council

Cofnodion Cyfarfod y Cyngor gynhaliwyd nos Fawrth, 4 Medi 2018 am 6.00yh
yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre, Aberteifi.

Minutes of the Council Meeting held on Tuesday, 4 September 2018 at 6.00pm
at the 36 Pendre Conference Room, Cardigan.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors John Adams-Lewis (*yn y gadair/in the chair*),
Clive Davies, Elaine Evans, Graham Evans, Marilyn Farmer, Richard Jones, Wyn Jones,
Siân Maehrlein, Catrin Miles, Steffan Morgan, Yvonne O'Neill (*gadawodd am/left at 7.15pm*),
Trystan Phillips.

1. Croeso'r Cadeirydd a Materion Personol.

The Chair's Welcome and Personal Matters.

Croesawodd y Maer, y Cyng. John Adams-Lewis, bawb i gyfarfod mis Medi. Yn absenoldeb y clerch, diolchodd i'r Cyng. Catrin Miles am gymryd y cofnodion.

Nodwyd nifer o weithgareddau'r haf: yn eu plith Sioe Aberteifi a gynhaliwyd ar ddydd Sadwrn eleni ar ddiwrnod braf o haf. Bu wythnos y Carnifal yn llwyddiannus iawn gyda nifer o ddigwyddiadau at ddant pawb drwy gydol yr wythnos; diolchwyr i aelodau'r pwyllgor am eu hymroddiad. Digwyddiad hanesyddol oedd dathlu canmlwyddiant y Llu Awyr ym Mlaenannerch. Daeth tyrfa fawr ynghyd i'r Wyl Afon a Bwyd yng nghanol mis Awst gan fwynhau'r danteithion lu oedd ar gael. Gorchwyl pleserus oedd dadorchuddio'r plac ar Gei'r Tywysog Siarl i nodi'r gefeillio rhwng tref Aberteifi a Trevelin ym Mhatagonia; yn dilyn hyn, cynhaliwyd cyngerdd llwyddiannus yng Nghastell Aberteifi i godi arian at Ysgol Gymraeg y Wladfa. Bu'r dref a'r ardal yn fwrllwm o weithgareddau drwy'r haf gan unwaith eto arddangos yr ysbryd gymunedol arbennig sydd wedi parhau ar hyd y blynyddoedd.

Llongyfarchwyd Kevin James ar ennill pencampwriaeth Cymru am yr eildro am fowlio yn Llandrindod yn ddiweddar; o ganlyniad, bydd yn cynrychioli Cymru unwaith eto ar gyrtau bowls yn yr Alban; bydd wedyn yn cynrychioli'i wlad ym mhencampwriaeth y byd yn Awstralia ym mis Mawrth 2019. Yn yr un modd llongyfarchwyd Derek Pusey, cyn-ddisgybl Ysgol Uwchradd Aberteifi, a wobrwyrwyd yn ddiweddar am ei wasanaeth clodwiw o ugain mlynedd i'r bad achub yn Poppit. Cytunwyd anfon cyfarchion y cyngor hefyd at Dr Andrew Cornish sydd newydd ei apwyntio yn Bennaeth a Phrif Weithredwr o Goleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion; edrychir ymlaen i gydweithio gydag ef er lles y coleg yma yn Aberteifi.

Siom oedd deall bod cleifion Meddygfa Ashleigh yn Aberteifi wedi derbyn llythyron yn datgan bod y feddygfa yn cau o fewn chwe mis; cynhelir cyfarfod agored ar 20 Tachwedd yn Neuadd y Dref o 1:30yp hyd 6:30yh i drafod y sefyllfa pryderus yma gyda swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda.

The Mayor, Cllr John Adams-Lewis, welcomed all to the September meeting. In the absence of the clerk, he thanked Cllr Catrin Miles for recording the minutes.

A number of summer activities was recorded: Cardigan Show, held this year on a Saturday, proved to be another successful day for the agricultural fraternity and was very well attended. The Carnival week provided the usual fun days with events for all members of the family; the committee members were thanked for their excellent organisation. The RAF centenary celebration was held at Blaenannerch and attended by members of the council. The usual large crowds attended the River & Food Festival in mid-August and enjoyed the sumptuous food on offer by the many stallholders. The unveiling of the plaque recording the twinning of Cardigan with Trevelin in Patagonia was held at the Prince Charles quay; a fund-raising concert was held later that evening at Cardigan Castle for the benefit of the Welsh school in

Patagonia. The town and surrounding area once again reflected the community spirit which the people of Cardigan have proudly displayed for many years.

Kevin James was congratulated for once again winning the Welsh singles bowls title at Llandrindod Wells recently; he will represent Wales at the British Isles Championships in Scotland later this year and the World Championships in Australia in March 2019. Derek Pusey, a past pupil of Ysgol Uwchradd Aberteifi, received an award from the RNLI for his 20 years' service as a valuable member of the lifeboat team in Poppit. It was agreed to forward the greetings of the council to Dr Andrew Cornish, the recently appointed Principal of Coleg Sir Gâr & Coleg Ceredigion; the continuation of the long-standing co-operation with Coleg Ceredigion in the town is anticipated.

Patients of Ashleigh Health Centre in Cardigan have received notification that the surgery will close in six months' time. A meeting will be held on 20 November in the Guildhall from 1:30pm to 6:30pm to discuss patients' concerns with officers of the Hywel Dda University Health Board.

2. **Ymddiheuriadau / Apologies:** Y Clerc/Clerk (*materion teuluol/family matters*), Y Cyngh. / Cllrs Debra Griffiths (*anhwylus/unwell*), Shan Williams (*anhwylus/unwell*).

3. **Cyflwyno / Introducing PS Delme Jones a WPC Nia Williams**

Croesawodd y Maer Y Rhingyll Delme Jones, y Blismones Nia Williams a'r Arolygydd Gareth Jones i'r cyfarfod. Diolchodd iddynt am eu gwasanaeth ac am eu cydweithrediad gan sicrhau yr hwylustod o gysylltu gyda'r heddlu yn Aberteifi. Ychwanegodd ei fod yn falch i glywed y bydd eu presenoldeb yn amlwg ar hyd y strydoedd.

Diolchodd y Rhingyll (sydd yn y swydd ers 2016) am y gwahoddiad, ac fe gyflwynodd WPC Nia Williams sy'n gweithio gyda Ben Cole a Shan Clarke. Mae hi wedi gweithio'n Aberteifi ers tair blynedd bellach. Croesawodd y Maer bresenoldeb y swyddogion yn y dref, gan fod yr Orsaf bellach wedi ei lleoli tu allan i'r dref. Mae'r Arolygydd a ddechreuodd ei ddyletswyddau yr wythnos hon yn Aberteifi yn edrych ymlaen at gydweithio gyda'r gymuned. Dymunodd y Maer yn dda i PCSO Shan Clarke, gan edrych ymlaen at y cyfarfod PACT nesaf (a drefnir ganddi). Yn y cyfamser, sicrahodd y swyddogion eu bod ar gael a bod yna groeso i gysylltu â hwy pan gwyd materion sy'n pery gofid.

The Mayor welcomed Police Sergeant Delme Jones, WPC Nia Williams and Inspector Gareth Jones to the meeting and thanked them for their co-operation with policing Cardigan. He added that he was pleased that their presence would be seen on the streets of the town. Sergeant Jones, who has served in the town since 2016, thanked the council for the invitation to be present and he introduced WPC Nia Williams who is working with PCSOs Ben Cole and Shan Clarke. She has now worked in Cardigan for three years. The Inspector who commenced his duties this week is looking forward to collaborating with others in Cardigan. The Mayor wished a full recovery to PCSO Shan Clarke and looked forward to the next PACT meeting organised by her. In the meantime, the officers requested anyone to consult with them at any point of concern.

4. **Datgan Diddordeb Rhagfarnol a Pheronol gan Gynghorwyr.**

Declaration of Prejudicial and Personal Interest by Councillors.

Y Cyngh. / Cllr John Adams-Lewis	<i>Holl faterion cynllunio / All planning matters</i>
Y Cyngh. / Cllr Clive Davies	<i>Cynllunio / Planning A180580 (Cambrian Quay) Gohebiaeth / Correspondence [113]</i>
Y Cyngh. / Cllr Richard Jones	<i>Cynllunio / Planning A180580 (Cambrian Quay)</i>
Y Cyngh. / Cllr Catrin Miles	<i>Gohebiaeth / Correspondence [113]</i>

5. **Cadarnhau Cofnodion Cyfarfod y Cynghor 3 Gorffennaf.**

Confirmation of Minutes of 3 July Council Meeting.

Cynigiwyd gan y Cyngh. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyngh. Marilyn Farmer bod cofnodion cyfarfod 3 Gorffennaf yn gywir.

Cllr Clive Davies proposed that the 3 July council minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Marilyn Farmer.

6. Materion yn codi o'r Cofnodion / Matters arising from Minutes.

Estynnwyd llongyfarchiadau i Dregaron ar gael ei dewis ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Cymru 2020. Cytunwyd anfon llythyr o ddymuniadau da i'r pwyllgor lleol yno.

Tregaron was congratulated on having won the right to host the 2020 National Eisteddfod of Wales. It was agreed to forward a letter with the town's best wishes for their success.

Tud. 1387, eitem 10[75]: Mae'r Maer wedi ceisio ffonio John Whitehall (tenis) ddwywaith ond heb gael ymateb. Mae'r Cyng. Steffan Morgan wedi e-bostio Mr Robert Evans, athro chwaraeon Ysgol Uwchradd Aberteifi gyda'r wybodaeth.

Page 1387, item 10[75]: The Mayor has been unable to contact John Whitehall (Tennis) to arrange a meeting. Cllr Steffan Morgan has forwarded the information to Mr Robert Evans, sports master at Ysgol Uwchradd Aberteifi.

Tud. 1388: eitem 11 (Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed). Bu'r Maer yn siarad â Mr John Dyer a chytunodd ef siarad â chyfreithwyr y Clwb Bowlio i drafod ymhellach. Mae prydles y Clwb Bowlio eithaf agos i'w chwblhau erbyn hyn. Croesawodd y Cyng Miles y datganiad bod y ddau gyfreithwr yn dod at ei gilydd.

Page 1388, item 11 (King George 5th Playing Field): The Mayor has discussed the Cardigan Bowls Club lease with Mr John Dyer who agreed to discuss the issues directly with the Club's solicitor. Cllr Miles welcomed this development.

Tud. 1390, eitem 14(b)(iv) (Strand): Dywedodd y Cyng. Miles ei bod yn gobeithio cael newyddion gan swyddog Cyngor Sir Ceredigion nos Fercher, 5 Medi yng nghyfarfod Partneriaeth Canol Tref.

Page 1390, item 14(b)(iv) (Strand): Cllr Miles disclosed that she was hoping to obtain further information from a county council officer at the Town Centre Partnership meeting on 5 September.

7. Gweithgareddau'r Maer. Dyddiadau i'w nodi.

Activities of the Mayor. Dates for the diary.

Dosbarthwyd Dyddiadur y Maer am fisoedd Gorffennaf ac Awst yn y cyfarfod.

The Mayor's Diary of Events for July and August was distributed at the meeting.

8. Cynllunio / Planning:

Rhif y Cais / App. No.	Cyfeiriad / Address	Y Bwriad / Proposal	Sylwadau / Comments
A180580	Cambrian Quay	Refurbishment, extension and change of use of warehouse to include mixed-size development comprising of events space (<i>sui genesis</i>), enterprise zone providing mixed use at ground floor and hostel and spa treatment room at first floor (<i>sui genesis</i>).	Please refer to correspondence 11[116] from Ms Suzanne Jenkins. "Members were opposed to this application, pending further information/ investigation. Plans are rather vague and time is too short to make a full and proper judgment (Town Council does not meet in August and very few local residents were advised of plans). Further details would be required: e.g. How many bunk-houses? Will public access be retained to slipways and coastal footpath?"

9. Biliau i'w talu / Bills to be paid.

Dyddiad / Date	Disgrifiad / Description	Côd / Code	Rhify Siec / Cheque No.	Swm (TAW) / Sum (VAT)
17/7/18	Tai Aberteifi Ltd.: Rhent Swyddfa'r Cyngor / Rent of Council Office (Gorffennaf / July). Rhent yr Ystafell Gynhadledd/Rent of Conference Room (4 & 17 Gorffennaf / July) Band Lydan (Awst) / Broadband (August)	A9 A9 A20	D/D 4592 4592	£250.00 (0.00) £50.00 (0.00) £20.00 (0.00)
17/7/18	Llinos Jones: Cyfieithu ar y pryd / Simultaneous translation (3/7/18)	A18	4593	£48.30 (0.00)
17/7/18	L. W. Jones: Cyflog y Clerc / Clerk's Salary (Gorffennaf / July)	A5	4594	£763.03 (0.00)

17/7/18	CTP Welding & Fabrication: Maps	B9	4595	£240.00 (40.00)
17/7/18	M. & E. Pearce: <i>Deunydd</i> / Materials for installation of maps	B9	4596	£61.01 (10.17)
CYTUNWYD TALU'R UCHOD YN IS-BWYLLGORAU 17 GORFFENNAF				
1/9/18	Tai Aberteifi Ltd.: <i>Rhent Swyddfa'r Cyngor</i> / Rent of Council Office (<i>Awst / August</i>). <i>Band Lydan (Medi)</i> / Broadband (September)	A9 A20	D/D 4597	£250.00 (0.00) £20.00 (0.00)
31/8/18	L. W. Jones: <i>Cyflog y Clerc</i> / Clerk's Salary (<i>Awst / August</i>)	A5	4598	£763.03 (0.00)
31/8/18	L. W. Jones: <i>Costau'r Clerc</i> / Clerk's Expenses: <i>Lluniaeth/refreshments (Noson cyflwyno grantiau, adfer murlun P. Smith/Grant presentation evening, restoration of P. Smith's mural), costau teithio (Aberaeron [CLIC])/travelling expenses, cardiau cyfarch / greeting cards, cludiant a manion/postage and sundries</i>	A21	4599	£75.66 (0.00)
7/8/18	Midshire: <i>Llungopïo/Photocopying</i>	A17	4600	£59.80 (9.97)
23/8/18	RoSPA Play Safety: <i>Archwilio'r meysydd chwarae</i> / Playing field inspections: (a) <i>Maes Sgrialu/Skateboard Park</i> (b) <i>Cae Chwarae B55ed/King George 5th P. Field</i>	C5 C3	4601	£79.80 (13.30) £79.80 (13.30)
17/7/18	G. & A. Parkes: <i>Symud mainc ar y Maes Sgrialu</i> . Relocating park bench at the Skateboard Park.	B9	4602	£144.00 (24.00)
31/7/18	M. & E. Pearce: <i>Deunydd i osod y mapiau</i> . Material for map installation	B9	4603	£169.06 (28.17)
31/7/18	CCF: " <i>Levington Tomorrow</i> " (<i>Ychwanegion blodau / Flowers supplement</i>)	C1	4604	£17.45 (2.79)
4/9/18	Parc Pilau (Mark Jukes Containers): <i>Hurio cist am gyfnod byr i storio cyfarpar Pentop</i> . Hire of container for short-term storage of Pentop play equipment	C12	4605	£60.00 (10.00)
31/8/18	<i>Bachan Deche</i> / Handyperson (<i>Gorffennaf / July</i>) (<i>Awst / August</i>)	A19	4606	£930.60 (155.10) £666.60 (111.10)

Cynigiodd y Cyng. Elaine Evans bod y biliau uchod yn cael eu talu; eiliwyd gan y Cyng. Yvonne O'Neill.

CLlr Elaine Evans proposed that the above bills be paid; this was seconded by CLlr Yvonne O'Neill.

Derbyniadau/Receipts:

9/6/18	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£1.71
9/7/18	<i>Llog y Banc</i> / Bank interest	£1.45
13/7/18	West & Wales Housing: Play Area grant (Cae Chwarae Pentop)	£4,000.00
31/7/18	Cyngor Sir Ceredigion County Council (<i>Praesept/Precept: Ail daliad/2nd Instalment</i>)	£27,998.49

10. Adroddiadau'r Cyngorwyr Sir / Reports from County Councillors.

(a) Y Cyng. Elaine Evans (dim i'w gyhoeddi).

(b) Y Cyng. Catrin Miles:

- (i) Mae'r Adran Priffyrdd wedi diwygio Matrics Asesu Ffyrdd ar gyfer Gwaith Trin Ymlaen Llaw (graeau'n y gaeaf) gyda thair heol ychwanegol. Y newyddion da yw fod dim newid i'r heolydd sy'n cael eu trin yn bresennol, felly bydd heolydd Aberteifi'n cael ei graeanu fel arfer.
- (ii) Mae'r Cyng. Miles wedi codi'r mater o'r arwyddion uniaith Saesneg ar adeilad y cyngor sir, Stryd Morgan: yr ymateb yw eu bod yn hanesyddol (a'r un uwch y drws yn hen lechen). Mae'r arwydd newydd yn gwbl ddwyieithog. Cytunwyd bod y Clerc yn ysgrifennu at y cyngor sir ynglŷn â'r mater. Ychwanegodd y Cyng. Trystan Phillips bod hi'n bwysig gweld bod y cyngor yn hyrwyddo'r iaith hefyd.
- (iii) Gor-yrur ar Stryd y Castell/Heol Llandudoch. Ers amser, mae achwynion am or-yrur ac nid oes modd gweld ble i osod man diogel i gerddwyr groesi'r ffordd. Bwriad y Cyng. Miles yw cyfarfod cyn hir â phreswylwyr yr ardal i geisio datrys y broblem; gwahoddir aelodau ward Teifi i fod yn bresennol. Mae'r Maer wedi darllen am

Aelod Cynulliad sy'n awgrymu gosod 20mya mewn pob tref, yn enwedig gerllaw ysgolion. Mae'r Cyng. Siân Maehrlein yn adleisio hyn parthed stad Maesglas. Holodd y Cyng. Trystan Phillips am system peiriannau solar fyddai'n dangos cyflymder ceir. Ychwanegodd y Cyng. Clive Davies bod "Sbîd-warchodwyr Cymunedol" ar waith yn ardaloedd Llechryd/Penparc, sy'n defnyddio gwirfoddolwyr; mae angen deg person i dderbyn hyfforddiant, gyda thri pherson allan yn archwilio ar y cyd. Dywedodd y Cyng. Maehrlein y buddai'n fuddiol i blant ysgol fynd ar gwrs ymwybyddiaeth cyflymder.

- (iv) Mae angen plismona ardaloedd di-alcohol yn y dref. Soniwyd am enghraifft ddiweddar o grŵp o bobl yn yfed diod ar Gei'r Tywysog Siarl yn ystod y prynhawn.**

(b) Y Cyng. John Adams-Lewis:

- (i) Mae'r Cyng. Adams-Lewis wedi cysylltu â chwmni Tai Ceredigion Cyf. i osod bolard ger rhif 22 Felinban i atal ceir rhag tramgwyddo.**
(ii) Mae'r gwaith i osod cyrbiau isel rhwng yr hen ysbyty a Pharc Teifi bron a'i gwblhau; mae angen caniatâd oddi wrth berchnogion byngalo Maes-y-Deri.

(a) Cllr Elaine Evans (no matters to report).

(b) Cllr Catrin Miles:

- (i) The Highways Department has revised the Road Matrix Assessment for the maintenance work on three extra roads. There is no change to the present service; therefore, all Cardigan roads will be gritted as usual.
- (ii) Cllr Miles has raised the issue of the English-only signage on the county council office in Morgan Street with the curt response that they were historical; the new signage is bilingual. It was agreed that the Clerk writes to the county council regarding this matter. Cllr Trystan Phillips responded that it's important for the council to promote the Welsh language to its utmost.
- (iii) Excess speed on the Castle Street/St Dogmaels highway. Complaints have been received from members of the public for a number of years as it is difficult and hazardous to traverse the highway along this section. Cllr Miles will liaise with local residents to discuss the problem; members of Teifi ward are also invited. The Mayor mentioned that an Assembly Member had proposed legislating for 20mph in all towns, specifically in the vicinity of schools. Cllr Siân Maehrlein endorsed this action for the Maesglas estate road network. Cllr Trystan Phillips enquired as to the placing of solar system monitors to control speed. Cllr Davies added that the communities of Llechryd/Penparc had endorsed "Community Speed Watch" schemes; ten persons need to be signed up and be trained, with three people on simultaneous duty. Cllr Maehrlein added that it would be beneficial for schoolchildren to attend speed awareness courses.
- (iv) Alcohol-free areas of Cardigan need to be policed regularly. Recently it was reported that a group of people was seen drinking alcohol on Prince Charles quay during the early evening.

(b) Cllr John Adams-Lewis:

- (i) Cllr Adams-Lewis has contacted Tai Ceredigion Cyf. regarding the placing of a bollard near No. 22 Felinban to prevent vehicles transgressing.
- (ii) The work to place dropped kerbs between the hospital and Parc Teifi is nearing completion; permission is required from the owners of the Maes-y-Deri bungalow before proceeding.

11. Gohebiaeth / Correspondence.

	<i>Llythyron i'w nodi / i'w darllen Letters to be noted / read</i>	<i>Sylwadau / Comments</i>
78	CSC / CCC (Marianne De Vries): <i>Rhaglen Ddrafft Cynnal a Chadw Priffyrdd, sef trin wyneb y ffyrdd cerbydau ar gyfer y flwyddyn ariannol 2018-19.</i> Highway Maintenance Provisional Programme of Carriageway Surface Treatment for the 2018-19 financial year.	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 24 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 24 July. <i>Copi caled ar gael gan y cler.</i> Clerk holds hard copy for inspection.
79	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Pendre, Stryd y Priordy / Priory Street:</i> 10/8/18, 18:00-22:30: <i>Ras y Gasgen / Barrel Race</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cynghorwyr ar 12 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 12 July.

80	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Ffordd yr Orsaf, Stryd y Castell, Pont Aberteifi, Heol y Bont, Stryd Fawr, Pendre, Ffordd y Gogledd, B4548 Ffordd Gwbert / Station Road, Castle Street, Cardigan Bridge, Bridge Street, High Street, Pendre, North Road, Gwbert Road: 13:20-14:20 11/8/18: Carnifal Aberteifi.</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 12 July.
81	CSC / CCC (Elin Jones): <i>Cau'r ffordd / Road closure – Glanpwllafon: 19:00-7:00, 7/8/18: Gwaith i'r cerbyttffordd/Carriageway work</i>	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 26 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 26 July.
82	CSC / CCC (Lowri Morgan): <i>Strategaeth Iaith Ceredigion 2018-23.</i> Ceredigion Language Policy. English copy available on the Ceredigion County Council website: www.ceredigion.gov.uk	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 12 July. <i>Copi caled Cymraeg ar gael gan y clerc.</i> Clerk holds Welsh hard copy for inspection. <i>Mae Cyngor Tref Aberteifi yn cadarnhau ei gefnogaeth i'r strategaeth gadarn sydd gan y cyngor sir i sicrhau dyfodol yr iaith. Mae'r strategaeth hon yn cynnal a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob agwedd posib o fywyd, ynghyd â dangos ffyrdd ar gyfer grymuso rhwydweithiau cymdeithasol cyfrwng Cymraeg mewn ardal ddwyieithog.</i> Cardigan Town Council wishes to convey its full support of the strategy set out by the county council to promote the Welsh language and facilitate the use of Welsh more widely within the local area. This strategy aims to sustain and promote the Welsh language in all aspects of life and to demonstrate ways of strengthening Welsh-medium social networks in a bilingual area.
83	CSC / CCC (Tom Delph-Janiurek): <i>Ymateb i gais y cyngor i osod teclyn i rifo cerbydau o stad Cnwcydintir i Felinban.</i> Response to the council's request to place traffic counters on the highway from Cnwcydintir to Felinban.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 31 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 31 July. <i>Nid oes adnoddau ar gael ar hyn o bryd.</i> Resources are not available at this time.
84	CSC / CCC (Mererid Jones): <i>Poster Casgliadau Gwastraff adeg Gŵyl Banc Awst.</i> August Bank Holiday 2018 Refuse collection Poster.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board.
85	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Ail daliad y praesept am y flwyddyn 2018-19.</i> Second instalment of the 2018-19 council precept (£27,998.49)	Nodwyd. Noted.
86	CSC / CCC (Alan Haird): <i>Diweddariad Cynlluniau Lle Ceredigion.</i> Update of the Ceredigion Place Plans: Cllr Clive Davies	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 31 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 31 July. <i>Dywedodd y Cyng. Davies bod arian ychwanegol ar gael gan "Cynnal y Cardi".</i> Cllr Davies stated that more funding is available with "Cynnal y Cardi".
87	CSC / CCC (Eifion Jones): <i>Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy (drafft). Deddf Gwlad a Hawliau Tramwy 2000.</i> Public Consultation on the draft of the Public Highway Improvement Plan, Countryside and Rights of Way Act 2000.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 2 Awst.</i> Forwarded to all councillors on 2 August. <i>Copi caled ar gael gan y clerc.</i> Clerk holds hard copy for inspection.
88	CSC / CCC (Mair Hemming): <i>Cadarnhad oddi wrth y cyngor sir mai Cyfoeth Naturiol Cymru sydd â chyfrifoldeb am nant y Mwldan.</i> Confirmation from the county council that Natural Resources Wales holds responsibility for the Mwldan brook.	<i>Mae'r clerc wedi anfon yr ymateb ymlaen at Gyfoeth Naturiol Cymru.</i> <i>CNC sydd yn gyfrifol am nant y Mwldan o'r Teifi hyd at bont y Mwldan ar Ffordd Gwbert.</i> The clerk has forwarded the response to Natural Resources Wales (ref. CAS-66888-KOH5) NRW is responsible for the Mwldan stream from the Teifi to the Mwldan brook on Gwbert Road.

89	CSC / CCC (Kevin Kirkland): <i>Poster o ddatgan diddordeb i gwmniau darparu gwasanaethau atodol i glirio eira a gwasanaethau eraill sy'n ymwneud ag argyfyngau 2018-19.</i> Poster inviting applicants to provide a service for the provision of supplementary snow-clearing and other emergency related services 2018-19.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board.
90	CSC / CCC (Stephen Johnson): <i>Yn gofyn am gadarnhad y bydd y gwaith i osod offer chwarae ar Gae Pentop wedi ei gwblhau erbyn 1 Mawrth 2019.</i> Requesting confirmation that the project to supply play equipment for the Pentop Play Area will be completed by 1 March 2019.	<i>Mae'r clerc wedi cadarnhau mewn e-bost at Mrs Meinir Davies (Swyddog Grantiau Cyllid y Cyngor Sir) ar 16 Awst y bydd y prosiect ar ben erbyn 1 Mawrth 2019.</i> The clerk confirmed by e-mail on 16 August to Mrs Meinir Davies that the project will be completed by 1 March 2019.
91	CSC / CCC (Pwyllgor Trwyddedu/Licensing Committee): Licence conditions and Guidance for Home Dog Breeders. <i>Sylwadau/Observations by 14/9/18 to trwyddedu@ceredigion.gov.uk</i>	<i>Mae copi o'r ddogfen ar gael gan y clerc.</i> Clerk holds a copy of the document for inspection.
92	CSC / CCC (Rhodri Llwyd): <i>Ymateb negyddol i gwyn y cyngor am asesu cyflymdra'r drafnidiaeth ar Ffordd Gwbert (ger Trwyn-yr-allt).</i> Negative response to the council's request to assess the speed of traffic on the Gwbert Road (near Trwyn-yr-allt). "Few properties on highway in this area. Speed limits should be self-enforcing. Prioritise limited budget by concentrating resources near schools."	<i>Caiff Ffordd Gwbert ei asesu yn yr archwiliad cyflymdra nesaf yn 2019.</i> Gwbert Road will be assessed in the next speed limit review which is currently scheduled for 2019 (resources permitting.)
93	<i>Llywodraeth Cymru: Gwahoddiad i'r gymuned weld cynllun arloesol i drafod prosiect Canolfan Adnoddau Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig Aberteifi yn Theatr Mwldan ar 7/9/18, 10:00-3:00pm.</i> Welsh Government: Invitation to see the innovative plans for the Cardigan Integrated Health & Social Care Resource Centre project at Theatr Mwldan on 7/9/18, 10:00am-3:00pm.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board.
94	<i>Hywel Dda: Cyngorau Iechyd Cymuned / Community Health Council: Adroddiad: "Beth yw eich GIG fel i chi? – clywed oddi wrth bobl ag anabledd dysgu".</i> Report: "What's your NHS like for you? – Hearing from people with a learning disability".	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 7 Awst.</i> Forwarded to all councillors on 7 August. <i>Aelodau i yrru unrhyw sylwadau.</i> Members to submit observations.
95	<i>Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda: "Trawsnewid ein Gwasanaeth Iechyd – Llais Cymunedol ar Iechyd a Gofal".</i> Hywel Dda University Health Board: "Our Big NHS Change – Communities' Voice of Health and Care": Following the consultation, an independent report has been received from the communities in mid and west Wales.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 30 Awst.</i> Forwarded to all councillors on 30 August. The full report and executive summary are available on the Health Board consultation web resource at www.hywelddahb.wales.nhs.uk/hddchange
96	<i>RoSPA: Adroddiadau archwilio'r meysydd chwarae.</i> Inspection reports of the play areas (Skateboard Park and King George 5 th Playing Field)	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ac i'r Bachan Deche ar 23 Awst. I'w drafod yn yr Is-bwyllgor.</i> Forwarded to all councillors and Handyperson on 23 August. To be discussed at the Sub-committee.
97	Mr Roy Britton, 95 North Road: <i>Cwyn ynglŷn â glanhau'r strydoedd.</i> Complaint regarding street cleaning in Cardigan.	<i>Mae'r clerc wedi anfon y cwyn ymlaen at y cyngor sir.</i> The clerk has forwarded the complaint to the county council.
98	Lt Alun Richards: <i>Diweddariad am ddigwyddiad yng Nghastell Aberteifi ar 3/11/18.</i> Update of the Remembrance of Heroes event at Cardigan Castle on 3 November.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 12 July.
99	<i>Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru: "Gwasanaethau Llawfeddygol Thorasig yn Ne Cymru".</i> Welsh Health Specialised Services Committee: "Thorasic Surgery Services in South Wales". Public Consultation document	<i>Copi caled ar gael gan y clerc.</i> Clerk holds hard copy for inspection.

100	John Whitehall, Regional Participation Officer (North) Tennis Wales: <i>Gwybodaeth am ymgyrch i oedolion.</i> Information for the introduction of tennis for adults.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 14 Awst.</i> Forwarded to all councillors on 14 August.
101	Tai Ceredigion Cyf.: <i>Ymateb i gwyn y cyngor am ganllawiau i drafod gyda theuluoedd sydd mewn galar.</i> Response to the council's request for directives when liaising with bereaved families.	<i>Blaenyrrwyd i'r cyngorwyr ar 12 Gorffennaf.</i> Forwarded to all councillors on 12 July.
102	Tai Ceredigion Cyf.: <i>Ymateb cadarnhaol i gais y cyngor i drafod Cae Chwarae Maesglas gyda Mr Steve Jones ym mis Medi.</i> A positive response from Mr Steve Jones to discuss the Maesglas Play Area in September.	<i>Y Cyngorwyr John Adams-Lewis, Shan Williams, Siân Maehrlein a Clive Davies i ymgynghori.</i> The above councillors to liaise and arrange a date for the meeting.
103	Clynfyw Care Farm (Mr Jim Bowen): <i>Gwahoddiad i aelodau gefnogi'r prosiect "Mynydd i'r Môr", 26-30 Medi.</i> Invitation to members to participate in the project "Mynydd i'r Môr", 26-30 September.	<i>Mae'r poster wedi ei arddangos ar yr hysbysfwrdd.</i> The poster has been displayed on the notice board.
104	Girlguiding (Cardigan Guides): <i>Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The request will be discussed at the September Grants Sub-committee meeting.
105	Cymdeithas Aberteifi Society: <i>Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The request will be discussed at the September Grants Sub-committee meeting.
106	<i>Cynllun Chwarae Aberteifi / Cardigan Playscheme:</i> <i>Cais am gymorth ariannol/Request for financial support.</i>	<i>Caiff ei drafod yng nghyfarfod Is-bwyllgor Rhoddion ym mis Medi.</i> The request will be discussed at the September Grants Sub-committee meeting.
107	<i>Ymddiriedolaeth Cadwraeth Adeiladau Aberteifi:</i> <i>Cais am gymorth ariannol tuag at waith ar allanolion Neuadd y Dref.</i> Cardigan Building Preservation Trust: Request for financial support to make necessary repairs to the exterior of the Guildhall.	<i>Disgwylir llythyr ffurfiol erbyn Is-bwyllgor Rhoddion mis Ebrill.</i> A formal letter is expected by the April Grants Sub-committee meeting.
108	<i>Anfonwyd llythyr o gydymdeimlad at Faer Fredericton, New Brunswick, Canada, yn dilyn y gyflafan yno.</i> A letter of condolences was sent to Cllr Mike O'Brien, the Mayor of Fredericton, New Brunswick, Canada, following the massacre.	<i>Nodwyd.</i> Noted.
109	George Davies & Evans (Cyfreithwyr/Solicitors): <i>Gohebiaeth ddiweddaraf ynglŷn â phrydles y Clwb Bowls.</i> Further correspondence regarding the Cardigan Bowls Club lease.	<i>Mae copi wedi ai anfon at aelodau'r gweithgor.</i> A copy has been forwarded to members of the working group on 14 August.
110	Vision ICT: <i>Llythyr yn cynnig gwelliannau i'r safle we.</i> Letter offering improvements and updates to the council's website.	<i>I'w drafod yn yr Is-bwyllgorau.</i> To be discussed at the Sub-committees.
111	Grant Thornton UK LLP (Archwilydd Cyffredinol Cymru / Auditor General for Wales): <i>Adroddiad Blynyddol y cyfrifon am 2017-18.</i> The certified Annual Return for Cardigan Town Council for the year 2017-18 has been received and was signed off by the External Auditor on 16/8/18. The Notice of Conclusion of Audit to be displayed in notice board. The council has confirmed that it has a trust fund and has met its responsibilities as a trustee for King George 5 th Playing Field. The Internal Auditor needs to cover this area and note the conclusion of Box 11 on the Internal Auditor Report.	The clerk has been advised to acquire a letter of engagement from the Internal Auditor. This letter should state their independence and outline the tasks they will undertake. The Internal Auditor should not be requested to undertake tasks that might compromise their independence. The Notice of Appointment of Date for the Exercise of Electors' rights to be displayed for 20 days following the approval by council. The Notice of Conclusion of Audit has been displayed on the notice board from 31 August for 14 days.

112	FUW (Undeb Amaethwyr Cymru): <i>Cyfarfod i'w gynnal yng Nghlwb Rygbi Aberaeron am 7.30yh ar 5 Medi i drafod dyfodol amaethyddiaeth Cymru a chlywed am gynnis Llywodraeth Cymru i ddileu taliadau uniongyrchol yn raddol a chyflwyno un cynllun amaeth-amgylchedd/Nwyddau Cyhoeddus.</i> Open meeting to be held at Aberaeron Rugby Club at 7.30pm on 5 September to discuss the future of Welsh agriculture and the Welsh Government's proposal to phase out the Direct Payments and replacing them with a single "public goods" environmental scheme.	<i>Derbyniwyd y gwahoddiad yma yn y swyddfa ar 3 Medi.</i> Invitation received in the office on 3 September.
113	Cymdeithas Aberteifi Society: <i>Amserlen Arfaethedig Dathliadau Daucanmlwyddiant "Albion" (Ebrill 2019).</i> Proposed timetable for "Albion" Bicentenary Celebrations (April 2019)	<i>Nodwyd.</i> Noted.
114	<i>Partneriaeth Canol Tref: Ystadegau App Aberteifi am fis Awst.</i> Town Centre Partnership: August Statistics from the Cardigan Town App.	<i>Aeth adroddiad allan i 90 o siopau/ cysylltiadau. Rhyw 20% mwy o bobl yn ymweld â'r dref ym mis Awst i gymharu â mis Gorffennaf.</i> 8,000+ people recorded at Cardigan Carnival; 10,000+ at the River & Food Festival.
115	<i>Bachan Deche: Adroddiadau Gorffennaf ac Awst.</i> Handyperson: July and August Reports	<i>I'w drafod tan eitem 12.</i> To be discussed under item 12.
116	Ms Suzanne Jenkins <i>Gweler eitem "8 Cynllunio".</i> See item "8 Planning".	<i>Copi o llythyr at swyddog cynllunio'r cyngor sir.</i> Copy of letter of objection to the CCC case officer regarding planning application A180580 – Cambrian Quay.

Alan Haird:	<i>Swyddog Rheoli a Datblygu Prosiectau / Project Management and Development Officer</i>
Eifion Jones:	<i>Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus – Arfordir a Chefnwlad</i> Public Rights of Way Officer – Coast and Countryside
Kevin Kirkland:	<i>Rheolwr Cynnal a Chadw Priffyrdd Ymatebol / Highway Maintenance Reactive Manager</i>
Marianne De Vries:	<i>Adain Cau Ffyrdd / Road Closures Section</i>
Rhodri Llwyd:	<i>Swyddog Arweiniol Corfforaethol: Priffyrdd a Gwasanaethau Amgylcheddol /</i> Corporate Lead Officer: Highways and Environmental Services
Stephen Johnson:	<i>Pennaeth y Gwasanaethau Ariannol / Head of Financial Service</i>
Tom Delph-Janiurek:	<i>Rheolwr/Beiriannydd Rheoli Trafnidiaeth / Senior Engineer Traffic Management</i>

12. Materion Is-bwyllgorau, Adroddiad y Bachan Deche a Mudiadau Allanol.

Sub-committee matters, Handyperson's Report and External Organisations.

Cadarnhau Cofnodion yr Is-Bwyllgorau 17 Gorffennaf.

Confirmation of 17 July Sub-Committee Minutes.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones bod cofnodion 17 Gorffennaf yn gywir.

Cllr Clive Davies proposed that the 17 July minutes be recorded as correct; this was seconded by Cllr Wyn Jones.

Materion yn codi / Matters arising

Tud. 1391 (Pwyllgor Ymgynghorol Cae Chwarae Brenin Siôr 5ed): Dywedodd y Cyng. Steffan Morgan bod llythyr wedi ei ddanfôn at Glwb Pêl-droed Aberteifi ynglŷn â'r cwrt caled a osodwyd ganddynt i osod y pyst. Yr ymateb oedd mai sefyllfa dros-dro oedd hwn; ni chafwyd manylion pellach.

Page 1391 (*King George 5th Playing Field Advisory Committee*): Cllr Steffan Morgan noted that a letter had been sent to Cardigan Football Club regarding the hard-standing compound placed on the corner of the field to house the goalposts. The response explained it as a temporary measure; no further explanation was received.

Tud. 1392(a) (Unrhyw Fater Arall): Mae'r Maer wedi derbyn cadarnhad mai Tai Ceredigion Cyf. sydd berchen y tir ger Felinban/Heol Helyg, felly mae'n bosib gwneud lle parcio yno. Cynigiodd y Cyng. Siân Maehrlein ac eiliwyd gan y Cyng. Richard Jones bod y cyngor yn anfon llythyr at gwmni Tai Ceredigion Cyf. gyda'r argymhelliad.

Page 1392(a) (*Any Other Business*): The Mayor has received confirmation that Tai Ceredigion Cyf. is the sole owner of the land near Felinban/Heol Helyg; accordingly, parking spaces could be made available.

Cllr Siân Maehrlein proposed and Cllr Richard Jones seconded that the council writes to Tai Ceredigion Cyf. with the original recommendation to provide parking spaces.

Tud. 1392(b) (Unrhyw Fater Arall): Cytunwyd bod y cyngor yn anfon llythyr at Mr Dai Davies o gwmni D. M. B. Davies, Cyfrifwyr, yn ei hysbysu nad oes unrhyw wrthwynebiad iddo brynu'r darn o dir gyda'r amod bod yr hawl tramwy yn cael ei warchod a bod cymdogion cyfagos yn derbyn gwybodaeth lawn o'i fwriad.

Cynigiwyd gan y Cyng. Graham Evans ac eiliwyd gan y Cyng. Wyn Jones bod y cyngor yn anfon llythyr at Mr Davies.

Page 1392(b) (*Any Other Business*): It was agreed that council informs Mr Dai Davies (D. M. B. Davies, Accountants) that it has no objection to him purchasing the land with the condition that the right of way is preserved and that immediate neighbours are informed of his intention.

Cllr Graham Evans proposed and Cllr Wyn Jones seconded that the council writes to Mr Davies informing him of the above decision.

Tud. 1392(e) (Unrhyw Fater Arall): Cytunwyd gyda'r argymhelliad gan aelod o'r cyhoedd i gadw enw gwreiddiol y "Strand": Bridge Parade, gyda'r amod bod y gwelliant Cymraeg yn cael ei dderbyn, sef Parêd y Bont.

Cynigiwyd gan y Cyng. Richard Jones ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan bod y cyngor yn derbyn y gwelliant.

Page 1392(e) (*Any Other Business*): It was agreed with the suggestion by a member of the public to retain the original name for the "Strand", Bridge Parade, on the condition that the Welsh translation "Parêd y Bont" be adopted.

It was proposed by Cllr Richard Jones and seconded by Cllr Steffan Morgan that the council accepts the amendment.

Tud. 1392(h) (Unrhyw Fater Arall): Cytunwyd bod y cyngor yn parhau â'r cais i osod manau parcio beiciau ger Stryd Morgan gan wrthbrofi rheswm y cyngor sir y byddai gosod stand ar y man hwn yn effeithio ar stondinau'r Ffair.

Cynigiwyd gan y Cyng. Clive Davies ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans.

Page 1392(h) (*Any Other Business*): The argument that installing cycle parking stands at this junction would impede the annual Cardigan Fair was refuted by members. It was agreed that the council pursues the recommendation to install bike hoops at Morgan Street with the county council.

Proposed by Cllr Clive Davies and seconded by Cllr Graham Evans.

Adroddiad y Bachan Deche: Cytunwyd rhoi gwybodaeth i'r cyngor sir am y brics bach sydd yn rhydd ac yn beryglus i gerddwyr o flaen Neuadd y Dref. Ychwanegodd y Cyng. Graham Evans fod slab o lechen yn rhydd o dan gerflun y dwrgi ar gei'r Tywysog Siarl.

Handyperson's Report: It was agreed to inform the county council that several brick pavers at the front of the Guildhall are loose and a potential hazard to pedestrians. Cllr Graham Evans added that a slab accommodating the otter on Prince Charles quay is also loose.

Castell Aberteifi: Caiff cynlluniau ar gyfer Gardd Brioude i'w trafod mewn is-bwyllgor. Mae'r Castell wedi sicrhau grant o £20,000 er mwyn ailgynllunio ardal yr ardd sydd o dan brydlles i'r Ymddiriedolaeth. Mae ymgynghoriad yn mynd yn ei flaen gyda'rartneriaid: Pwyllgor Gefeillio Aberteifi/Brioude, aelodau lleol Cyngor Sir Ceredigion a chynrychiolwyr cyngor y dref. Mae'r cynlluniau ar y gweill ar hyn o bryd a'r bwriad yw gorffen y gwaith erbyn diwedd mis Tachwedd.

Cardigan Castle: Plans to redesign Brioude Gardens are to be discussed in the Sub-committee meeting. Cardigan Castle funding of about £20,000 has been secured for the re-design and refreshing of the Brioude Garden area which is under lease with the Trust. Consultation is under way with all stakeholders involved: Brioude/Aberteifi twinning committee, local members of Ceredigion County Council and town council representatives. Initial sketch ideas are being formulated. Ground work is intended to be completed by the end of November

Ffrindiau'r Maes Sgrialu: Mae grant yr Undeb Ewropeaidd wedi ei sicrhau a bydd angen ei ddefnyddio yn ystod yr wyth mis nesaf. Mae Cyngor Tref Aberteifi wedi cytuno cyd-noddi hyd at £15,000 a chaiff y swm ei drosglwyddo yn dilyn cais gan Cathryn Morgan o'r cyngor sir. Mae cynnig y gwaith ar dendr yn parhau ar hyn o bryd.

Friends of Cardigan Skatepark: The EU grant is secured and needs to be spent in the next 8 months. Match funding of the Cardigan Town Council budget of £15,000 as agreed will need to be transferred once Cathryn Morgan requests the sum from the county council. Tender processing for the work is underway and in the public domain.

Menter Aberteifi: Mae drws ffrynt Neuadd y Dref wedi ei beintio.

Menter Aberteifi: The front door of the Guildhall has now been painted.

13. Personél / Personnel.

14. Unrhyw Fater Arall ar ddoethineb y Maer.

Any Other Business at the Mayor's discretion.

(a) Y Cyng. / Cllr Siân Maehrlein

- (i) **Cais i anrhydeddu Mr Derek Burton ar ei gamp i godi arian tuag at elusennau.**

Cynigiwyd gan y Cyng. Siân Maehrlein ac eiliwyd gan y Cyng. Steffan Morgan bod y cyngor yn cyflwyno tarian y dref i Derek am ei gampau elusennol.

Request to offer a commendation to Mr Derek Burton on his achievement in raising funds for charities.

It was proposed by Cllr Siân Maehrlein and seconded by Cllr Steffan Morgan that the council presents a town shield to Derek in recognition of his charitable work.

(b) Y Cyng. / Clive Davies

- (i) **Cyflymdra / Speed limit: Maeshenffordd, Rhos-y-dre.**

Awgrymodd y Cyng. Davies bod angen arwyddion ail-ddweud i atgoffa bobl mai 20mya yw'r cyflymder uchaf ar hyd y ffordd yma. Cytunodd y Maer holi Mr Tom Delph-Janiurek am gyngor.

Cllr Davies suggested that repeater signs indicating a 20mph limit be erected on this section of highway. The Mayor agreed to seek advice from Mr Tom Delph-Janiurek.

- (ii) **Biniau sbwriel / Cast iron litter bins (locations and replacements)**

Mae tua deg bin a thrigain yn y dref ac mae'r rhai cast yno ers 30 mlynedd. Mae'r cyngor sir yn awyddus i ddechrau rhaglen o'i hadnewyddu. Cytunodd y Cyng. Davies gael rhestr o leoliadau'r rhai cast gan ddechrau ymgyrch i'w newid yn raddol. Dywedodd y Cyng. Catrin Miles y byddai'n syniad edrych ar finiau eraill o wneuthuriad ailgylchu.

There are approximately 70 bins littered across the town with the cast ones being 30 years old. The county council is preparing a programme to replace the old with new. Cllr Davies agreed to note the location of existing bins in Cardigan and introduce a scheme of replacement. Cllr Miles suggested exploring the possibility of providing bins of a recycled construction.

- (iii) **Stondinau'r Ffair / Street Fair market plots for 10 November.**

Bwriedir gosod un stonidin ar ddeg o flaen Neuadd y Dref gan ostwng y gost i £22 yr un. Bydd y cyfanswm oddeutu £285. Ymdrech yw hwn i godi safon stondinau'r Ffair. Bydd y trydan am ddim. Os bydd mwy nag un stonidin ar ddeg bydd y cyngor sir yn darganfod safle i'r gweddill.

Cynigiwyd gan y Cyng. Steffan Morgan ac eiliwyd gan y Cyng. Graham Evans bod yr ymgyrch yma yn cael ei fabwysiadu gan y cyngor.

It is intended to place eleven stalls at the front of the Guildhall with a reasonable cost of £22 per stall. The total outlay will be approximately £285. This is an attempt to improve the quality of the stalls at Cardigan Fair. There will be zero charge for electricity. If more than eleven applicants apply, the county council will obtain space for the remainder.

It was proposed by Cllr Steffan Morgan and seconded by Cllr Graham Evans that the town council adopts this scheme.

(c) Y Cyng. / Cllr Catrin Miles:

- (i) **Problemau parcio ar gei Tywysog Siarl:**

Mae'r Cynghorwyr Catrin Miles a Graham Evans wedi gwahodd swyddog o'r cyngor sir i'r safle a chytunwyd bod angen gosod bolardiau yno. Bydd angen cytuno ar leoliad eu gosod er mwyn atal parcio oherwydd y dirywiad a wneir i wyneb y safle. Bydd y swyddog yn creu cynllun derbyniol.

Parking problems at the Prince Charles quay.

Cllr Catrin Miles and Cllr Graham Evans have invited an officer from the county council to discuss the problem of vehicles parking on Prince Charles quay.

It was agreed that a number of bollards be placed in strategic points to prevent the on-going damage to the surface. The officer will provide a design in due course.

(ii) **Datblygiadau ar Gae Chwarae Pentop.**

Mae'r gwaith i sefydlu'r cyfarpar chwarae gan gwmni Sutcliffe Playgrounds wedi dod i fwcwl dros yr wythnos ddiwethaf; bydd angen penodi dyddiad i agor y safle'n swyddogol a chydabod y cyllidwyr.

Developments at Pentop Playing Field

The work to install the play equipment by Sutcliffe Playgrounds at Pentop Field is now nearing completion. A date for the official opening is to be set; funders will also be invited.

(d) **Y Cyng. / Cllr Yvonne O'Neill:**

(i) **Argyfwng cartref Mr a Mrs Workman, Stryd Morgan**

Nodwyd gan y Maer bod y sefyllfa yn nwylo'r cyfreithwyr ar hyn o bryd, felly nid yw'n briodol i drafod y mater.

Mr and Mrs Workman's housing crisis in Morgan Street.

The Mayor stated that the matter was presently in the hands of solicitors; therefore discussion of the issue is not appropriate at this present time.

(e) **Y Cyng. / Cllr Richard Jones:**

(i) **Mae'r Cyng. Richard Jones yn holi am gynlluniau i ailbaentio englyn Ceri Wyn Jones ar y Cei. Atebodd y Cyng. Miles fod cynlluniau ar droed i grŵp ieuencid lleol wneud y gwaith, dan oruchwyliaeth.**

Cllr Richard Jones expressed his concern at the poor state of the Ceri Wyn Jones stanza encrypted on the wall of Prince Charles quay. Cllr Miles responded by stating that a group of local youth will undertake the restoration under supervision.

Awgrymiadau'r Clerc am ddyddiadau cyfarfodydd i'w cynnal yn yr Ystafell Gynhadledd:

Clerk's suggestions for dates of forthcoming meetings to be held at the Conference Room:

Nos Fawrth / Tuesday, 18 Medi/September:

Is-Bwyllgor Grantiau am 6.00 o'r gloch.

Grants Sub-committee at 6.00pm.

Nos Lun/Monday, 8 Hydref/October:

Pre-Remembrance Service meeting at 7.00pm.

(I'w fynychu gan y Maer a'r Clerc / To be attended by the Mayor and Clerk.)

Nos Fercher / Wednesday, 10 Hydref/October:

Cyfarfod Blynyddol Elusen Cae Chwarae Brenin Siôr Sed am 7.00yh.

King George 5th Playing Field charity AGM at 7.00pm.

Gan nad oedd materion pellach i'w trafod, daeth y cyfarfod i ben am 7.45yh

There being no further business to discuss, the Mayor closed the meeting at 7.45pm.

Oherwydd natur gyfrinachol y busnes oedd i'w drafod, gwaherddwyd y wasg, a thrafodwyd eitem "Personnel" mewn pwyllgor.

Cynigiwyd yr uchod gan y Cyng. Catrin Miles ac eiliwyd gan y Cyng. Trystan Phillips.

In view of the confidential nature of the business to be transacted, the press, etc., were excluded and the council discussed one item pertaining to "Personnel" in committee.

The above was proposed by Cllr Catrin Miles and seconded by Cllr Trystan Phillips.

Arwyddwyd/Signed (Cadeirydd/Chairperson) Dyddiad/Date